# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Etholiad Senedd Cymru

## Ar gyfer Etholaeth Bangor Conwy Môn

1. Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelodau i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth Bangor Conwy Môn.

2. Gellir cael papurau enwebu gan swyddfa’r Swyddog Canlyniadau, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ, neu’n electronig drwy etholiad@conwy.gov.uk yn ystod y cyfnodau a nodir isod.

3. Mae’n rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi’r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau’r banc) ond dim hwyrach na 4pm ar Ddydd Iau, 9 Ebrill 2026 neu’n electronig yn unol â’r trefniadau a nodir yn y datganiad o ddanfoniad electronig isod.

4. Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais **Ddydd Iau, 7 Mai 2026**.

5. Mae’n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos **Ddydd Llun, 20 Ebrill 2026**. Gellir cyflwyno cais ar-lein: **https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

6. Gellir talu’r ernes o £500 fesul ymgeisydd unigol, neu’r ernes o £500 am yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 am bob un o’r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, trwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banciwr (gan dynnwr sy’n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig) neu drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol.

7. Mae’n rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 5pm Ddydd Mawrth, 21 Ebrill 2026.

8. Mae’n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 5pm Ddydd Mawrth, 28 Ebrill 2026.

   Mae’n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 5pm, Dydd Iau, 7 Mai 2026.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau ar Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ

## 9. Datganiad o ddanfoniad electronig

Mae'n rhaid anfon papurau a gyflwynwyd yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

- **Gwiriadau anffurfiol** – drwy e-bost at etholiadau@conwy.gov.uk – rhowch 'GWIRIAD ANFFURFIOL – SENEDDBCM26' yn y blwch testun.

- **Cyflwyno enwebiadau** - ewch i www.conwy.gov.uk/enwebiadau a chyflwynwch y ffurflen enwebu drwy ddefnyddio'r porth ar-lein,

Sylwer:

- Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel sy'n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

- Nid yw derbyniad darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn anfon hysbysiad o'u penderfyniad p'un a yw'r enwebiad yn ddilys ai peidio.

- Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch gydag anfon enwebiadau'n electronig, cysylltwch ag etholiadau@conwy.gov.uk

| Y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir neu Fwrdeistref Sirol | | |
|---|---|---|
| Conwy | Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ | 01492 575570 |
| Sir Ddinbych | Neuadd y Sir, Wynnstay Road, Rhuthun, LL15 1YN | 01824 706000 |
| Gwynedd | Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH | 01766 771000 |
| Ynys Môn | Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn | 01248 751287 |



**Rhun ap Gareth**
**Y Swyddog Canlyniadau**

**Dyddiedig: Dydd Mercher, 25 Mawrth 2026**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau ar Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ